
# CELF GYHOEDDUS AR HYD
# TAITH TAF

**Diben y daflen hon yw darparu gwybodaeth am y Gelf Gyhoeddus sydd i'w gweld ar hyd Taith Taf yng Nghaerdydd.**

**Os ewch am dro ar hyd y llwybr, fe welwch lawer o ddarnau diddorol o Gelf Gyhoeddus, o'r Llwybr Cerfluniau yn Fforest Fawr i'r cerfluniau ym Mae Caerdydd.**

*I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.*

**Ffôn:** 029 2087 3215
**E-bost:** cefngwlad@caerdydd.gov.uk
**Gwefannau:** www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad
www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth




## ALLWEDD

- Cerfluniau/ Celf Gyhoeddus
- Cerflun
- Cofeb
- Tŵr Cloc
- Murlun
- Taith Taf

1. Cylch Celtaidd
2. Map Cerfwedd Taith Taf
3. Antarctic 100 – Cofeb Capten Scott
4. Cofeb Ryfel y Morwyr Masnachol
5. Man Cyfarfod ar y Plinth
6. Paneli'r Bae
7. Deep Navigation
8. Ffens a Gatiau
9. Ceiliog Gwynt y Llong Bysgota
10. Pobl fel Ni
11. Wal yr Anifeiliaid
12. Cargoes
13. Cloc Willows
14. Murlun Parc Hamadryad
15. Llong mewn Potel
16. Cader Iris
17. Mynedfa Parc y Gamlas
18. Canopi Ffynnon Gerddi'r Faenor
19. Cofeb Ryfel Gerddi'r Faenor
20. Connect 4 or 5
21. Fitzhamon Embankment
22. Rhodfa'r Mileniwm
23. Cerflun Ail Ardalydd Bute
24. Wal yr Anifeiliaid (Castell Caerdydd)
25. Tŵr Cloc Castell Caerdydd
26. Cerfluniau Pren – Parc Bute
27. Cerflun o 'Joyance'
28. Billy'r Morlo
29. Canopi Ffynnon Parc Fictoria
30. Cofeb Ryfel Llandaf
31. Cerflun o James Rice Buckley
32. Croes y Ddinas
33. Map o Landaf
34. Murlun Gabalfa
35. Cofeb Ryfel Radur
36. Llwybr Cerfluniau Fforest Fawr
37. Taf, Rhymni ac Elái
38. Y Tŵr Dŵr, Bae Caerdydd
39. Postyn Milltir Mileniwm Cymru
40. Tanffordd Parc Hailey



# 1. CYLCH CELTAIDD

Comisiynwyd y cylch efydd mawr hwn gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ym 1993 i nodi man cychwyn Taith Taf. Fe'i lluniwyd gan Harvey Hood ym 1993 ac mae ganddo arwyneb gweadog manwl sy'n cynnwys siartiau llanw, offerynnau morwrol a'r diwydiannau sy'n gysylltiedig â Dociau Caerdydd.

Gellir gweld y cylch ar y rhodfa ym Mae Caerdydd ar lan y dŵr yn Roald Dahl Plass.

## 2. MAP CERFWEDD TAITH TAF

Cwblhawyd ail ddarn o gelf gan Harvey Hood ym 1993 sy'n dangos llwybr Taith Taf, gan olrhain ei llwybr rhwng Bae Caerdydd ac Aberhonddu. Mae'r map cerfwedd hwn, sy'n dangos yr ardal a thopograffi'r llwybr, yn un o bâr cyfatebol, gellir gweld yr ail ddarn celf ym mhen arall y llwybr yn Aberhonddu.





## 3. ANTARCTIC 100 – COFEB CAPTEN SCOTT

Saif y cerflun brithwaith hwn ger y fan yn y Bae lle hwyliodd llong Capten Scott, y Terranova, o Gaerdydd ym 1910 ar ei thaith drychinebus i Begwn y De. Cwblhawyd y gofeb yn 2003 gan Jonathon Williams, ac fe'i lleolwyd yn Mharc Glan y Dŵr, Bae Caerdydd.

# 4. COFEB RYFEL Y MORWYR MASNACHOL

Mae'r cerflun hwn yn cyfuno cragen llong â siâp wyneb. Mae'n gofeb i'r Morwyr Masnachol o dde Cymru a fu'n gwasanaethu yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fe'i lluniwyd gan Brian Fell ym 1996 a gellir ei gweld yn Rhodfa'r Harbwr, Bae Caerdydd.

Arysgrifiwyd y geiriau canlynol ar ymyl y brithwaith: "IN MEMORY OF THE MERCHANT SEAFARERS FROM THE PORTS OF BARRY, PENARTH, CARDIFF WHO DIED IN TIMES OF WAR"






# 5. MAN CYFARFOD AR Y PLINTH

Mae'r ardal eistedd grom yn "Fan Cyfarfod" diddorol i bobl ei defnyddio. Fe'i hadeiladwyd gan Richard Harris yn 2006 gan ddefnyddio'r un fath o lechi Cymreig ag a ddefnyddiwyd ar gyfer adeilad y Senedd, a gellir ei gweld ger y Senedd ar Stryd Pen y Lanfa.



## 6. PANELI'R BAE

Wedi'u lleoli ar waelod deuddeg golau stryd o amgylch glannau Bae Caerdydd, mae pob un o'r paneli terracotta, a ddyluniwyd gan Martin Williams ym 1993, yn darlunio agweddau gwahanol ar ddiwylliant Cymru.



# 7. DEEP NAVIGATION

Fe'i crëwyd gan Stefan Gec yn 2000 ac fe'i lleolwyd yn Roald Dahl Plass. Mae'r golofn gyntaf yn nodi enwau pob un o'r pyllau glo yn ne Cymru a oedd yn weithredol ym 1964. Mae'r ail golofn yn nodi enwau pob porthladd yr allforiwyd glo iddo o Gaerdydd.




# 8. FFENS A GATIAU

Wedi'i gomisiynu gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, nod yr artist Jeremy Waygood oedd dangos diwylliannau amrywiol Dociau Caerdydd ac annog plant ysgol lleol i ystyried eu gwreiddiau aml-ddiwylliannol eu hunain. Meddyliodd y plant am syniadau amrywiol a oedd yn ymgorffori eu gwreiddiau eu hunain, gan arwain at ddarn o gelf sy'n dangos diwylliannau amrywiol yr ardal. Cwblhawyd "Ffens a Gatiau" ym 1995.




# 9. CEILIOG GWYNT Y LLONG BYSGOTA

Saif ceiliog gwynt copr a dur ar do Woods Brasserie, Stryd Stuart, a grëwyd gan Andy Hazell ym 1997. Mae'n dangos y defnydd blaenorol a wnaed o'r adeilad fel Swyddfa Lywio.




## 10. POBL FEL NI

Crëwyd y cerflun efydd hwn, sy'n dangos pâr ifanc lleol a'u ci, gan John Clinch ym 1993, ac mae'n dathlu'r bobl a fu'n byw ac yn gweithio'n lleol ym Mae Caerdydd ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif. Gellir gweld y cerflun ar y rhodfa yng Nghei'r Fôr-Forwyn.



## 11. WAL YR ANIFEILIAID

Mae'r wal yn cynnwys 1000 o flychau adar ac ystlumod ac mae wedi creu cynefin bywyd gwyllt newydd ar hyd glannau Afon Taf. Crëwyd y gwaith celf hwn gan Gitta Gschwendter yn 2009 a gellir ei weld ar Rodfa Afon Taf yn Century Wharf.



## 12. CARGOES


Mae’r gwaith yn ‘deyrnged farddol i Ddociau Caerdydd’ ac yn cynnwys 21 o gerfluniau ar yr adeiladau o amgylch Cei'r Fôr-Forwyn. Mae’r darnau celf yn cynnwys mwnci, pen eliffant, yn ogystal â choed tân a glo i gynrychioli’r nwyddau amrywiol a gludwyd i mewn ac allan o'r dociau yn ystod eu hoes aur. Crëwyd y darnau gan Brian Fell yn 2000 ar sail y gerdd ‘Cargoes’ gan John Masefield. Gellir gweld y gweithiau celf yn yr awyr agored ar ben adeiladau yng Nghei'r Fôr-Forwyn.




## 13. CLOC WILLOWS


Mae'r Tŵr Cloc yn cynnwys dau wyneb sy'n cynrychioli Caerdydd a Llundain; gan ddarlunio hanes Capten Willows. Roedd y Capten Ernest Willows yn arloeswr hedfan lleol sy'n enwog am lanio llong awyr enfawr o flaen Neuadd y Ddinas ar 7 Mehefin, 1910. Gwnaeth lawer o deithiau mentrus drwy gydol ei yrfa hedfan yn cynnwys taith 10 awr i Lundain; sef y daith awyr hiraf a wnaed yn y wlad bryd hynny. Yn ystod y daith bu'n rhaid iddo hedfan yn agos at y ddaear ar sawl achlysur i ofyn am gyfeiriadau, ond yn y pendraw cyrhaeddodd Lundain er mawr syndod i'r bobl leol. Bu farw Willows yn drasig pan ddisgynnodd llong awyr arall yr oedd yn hedfan ynddi 100 troedfedd. Fe'i claddwyd ym Mynwent Cathays gyda'r geiriau "Captain Willows" ar ei garreg fedd.

Ceir sawl teyrnged i Gapten Willows ar draws y ddinas yn cynnwys Cloc Willows a ddyluniwyd gan Andrew Hazell yn 2000. Gyda'r nos caiff y cloc ei oleuo gan siapiau a llinellau sy'n cynrychioli dŵr, y lleuad a'r llanw.



## 14. MURLUN PARC HAMADRYAD

Comisiynwyd yr artistiaid lleol Chi gan y Cyngor yn 2009 i weithio gydag ysgolion lleol i ddatblygu gwaith celf arddull "graffiti" ar raddfa fawr. Penderfynwyd y dylai'r gwaith celf adlewyrchu hanes yr ardal a chynnwys yr Hen Forglawdd a'r Loc yn ogystal â'r bywyd gwyllt cyfoethog sy'n gysylltiedig â'r gwlyptiroedd ac Afon Taf. Cyn creu'r gwaith celf, roedd y danffordd wedi'i gorchuddio â graffiti a thagiau, ac mae'r gwaith celf newydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal.




## 15. LLONG MEWN POTEL

Crëwyd y cerflun Llong mewn Potel gan Melissa Gibbs yn 2004 a gellir ei ddefnyddio fel mainc yn ogystal â bod yn ddarn o gelf. Fe'i lluniwyd o ddur galfanedig wedi'i baentio a gellir ei weld ar ben Rhodfa Windsor.




# 16. CADER IDRIS

Ysbrydolwyd y cerflun tywodfaen hwn gan fynyddoedd, llynnoedd a chymoedd Cymru, yn arbennig 'Cader Idris' yn Eryri. Fe'i crëwyd gan William Pye ym 1999 a gellir ei weld heddiw yng Ngwarchodfa Gwlyptir Bae Caerdydd



# 17. MYNEDFA PARC Y GAMLAS

Wedi'u lleoli ar lwybr Camlas hanesyddol Morgannwg, mae'r pedwar panel yn adlewyrchu hanes cloddio glo yng nghymoedd De Cymru a'i allforio o Ddociau Caerdydd. Fe'u crëwyd gan Martin Williams ym 1994 a gellir gweld y paneli ar James Street.



## 18. CANOPI FFYNNON GERDDI'R FAENOR

Mae'r canopi hwn, a oedd yn cynnwys ffynnon yfed yn wreiddiol, yn un o ddau enghraifft sydd ar ôl a roddwyd i'r ddinas ddechrau'r 1900au. Wedi'i adeiladu gan MacFarlane's yn Glasgow ym 1909, gellir ei weld yng Ngerddi'r Faenor.



# 19. COFEB RYFEL GERDDI'R FAENOR

Lluniwyd Cofeb Ryfel Gerddi'r Faenor ym 1920 gan Henry Charles Fehr, cerflunydd coffaol a phensaernïol Prydeinig. Cyfrannodd Fehr at addurniadau Neuadd y Ddinas, Caerdydd hefyd.

## 20. CONNECT 4 OR 5


Cerflun golau yw Connect 4 or 5 a grëwyd gan Adrian Stewart yn 2009 o dan Bont Rheilffordd Stryd Wood. Mae goleuadau LED a osodwyd o dan fwâu'r bont yn pelydru golau glas/porffor sy'n effeithiol iawn gyda'r nos.



# 21. FITZHAMON EMBANKMENT

Yn 2006, penododd Cyngor Caerdydd Andrew Rowe, David Mackie a Heather Parnell i wella cornel o Fitzhamon Embankment a oedd wedi mynd â'i phen iddi, fel rhan o Gynllun Adnewyddu Cymdogaethau'r Cyngor. Gweithiodd yr artistiaid â phreswylwyr lleol i ddatblygu syniadau ar gyfer project celf cyhoeddus, a daeth i'r amlwg mai bwyd oedd y thema allweddol sy'n uno pobl Glan-yr-afon. Mae'r cerfluniau'n cynrychioli darnau o berlysiau amrywiol yn cynnwys hadau mwstard, coriander, saffrwm, cnau'r India, cardamom a sinsir. Cânt eu goleuo gyda'r nos ac maent yn edrych yn drawiadol iawn wrth iddynt newid drwy gyfres o liwiau. Gellir gweld y cerfluniau ar Fitzhamon Embankment gyferbyn â Stadiwm y Mileniwm.






## 22. RHODFA'R MILENIWM

Roedd rhan o waith datblygu Stadiwm y Mileniwm yn cynnwys Rhodfa'r Mileniwm sy'n cynnwys rhodfa estyllog ar lannau Afon Taf. Gosodwyd sawl brithwaith yn y rhodfa estyllog sy'n dangos cenhedloedd gwahanol a'u baneri.






## 23. CERFLUN AIL ARDALYDD BUTE

Crëwyd y cerflun trawiadol hwn o John Crichton-Stuart, sef Ail Ardalydd Bute, gan John Evan Thomas ym 1853. Roedd yr Ardalydd yn berson pwysig iawn yn ei gyfnod. Efe a greodd y Gaerdydd fodern, ac roedd yn rhannol gyfrifol am agor Dociau Caerdydd a'u llwyddiant dilynol. Saif y cerflun yn Sgwâr Callaghan bellach.





## 24. WAL YR ANIFEILIAID (CASTELL CAERDYDD)

Dyluniwyd Wal yr Anifeiliaid gan William Burges ym 1866, ond ni chafodd ei hadeiladu tan 1890, ar ôl marwolaeth Burges ym 1881. Cerfluniwyd y naw anifail gwreiddiol gan Thomas Nicholls ac maent yn cynnwys hiena, blaidd, epaod, morlo, arth, llewes, lyncs, a dau lew gwahanol. Fe'u paentiwyd mewn lliwiau naturiol, er bod y paent wedi'i dynnu i ffwrdd o'r cerfluniau ers hynny. Ym 1922, symudwyd y wal tua 50 metr (160 troedfedd) o'r tu blaen i Gastell Caerdydd i'w lleoliad presennol y tu allan i Barc Bute oherwydd gwaith i ledaenu'r ffordd. Ychwanegwyd chwe anifail arall ym 1931; sef y pelican, morgrugysor, racwniaid, llewpart, afanc a fwltur. Fe'u cerfluniwyd gan Alexander Carrick.

Fel rhan o'r gwaith gwerth £5.6 miliwn i adnewyddu Parc Bute, dechreuodd y gwaith o adfer yr anifeiliaid yn 2010. Yn ystod y gwaith atgyweirio, gosodwyd trwyn newydd ar y morgrugysor, a fu heb drwyn ers diwedd y 1990au, a llygaid gwydr newydd ar y naw anifail gwreiddiol. *Lluniau (h) Hawlfraint y Goron (2012 Croeso Cymru)*





## 25. TWR CLOC CASTELL CAERDYDD

Wedi'i guddio y tu ôl i furiau Castell Caerdydd, mae'r tŵr cloc trawiadol hwn wedi'i addurno'n goeth gyda saith ffigur sy'n cynrychioli'r planedau fel Duwiau Rhufeinig. Wedi'u dylunio gan William Burges ym 1873, dangosir y duwiau Sadwrn, Iau, Mawrth, Sol, Fenws, Mercher a Luna mewn gwisg ganoloesol. Mae Tŵr y Cloc yn rhoi blas ar yr addurniadau coeth o fewn y Castell ei hun. *Lluniau (h) Hawlfraint y Goron (2012 Croeso Cymru)*



## 26. CERFLUNIAU PREN – PARC BUTE

Gellir gweld sawl cerflun pren o amgylch Parc Bute yn dangos amryw bethau yn cynnwys llwynogod a thylluanod, dyfrgwn, barcutiaid cochion a Dwynwen, Duwies Cariad y Cymry. Mwy o wybodaeth am Gelfyddyd Gyhoeddus ym Mharc Bute cyn bo hir.



# 27. CERFLUN O 'JOYANCE'

Wedi'i ddylunio'n wreiddiol gan Syr William Goscombe John ym 1899, saif y Cerflun o 'Joyance' ym Mharc Thompson. Ganed Syr William yng Nghaerdydd, a chaiff ei ystyried yn aml fel cerflunydd cenedlaethol Cymru oherwydd ei amlygrwydd yn y 19eg ganrif. Gweithiodd ochr yn ochr â'i dad ar gerfluniau Castell Caerdydd, a gellir gweld enghreifftiau o'i waith diweddarach ledled Cymru a Lloegr. Wedi'i llunio o efydd yn wreiddiol, lluniwyd y cerflun presennol o 'Joyance' o resin plastig oherwydd ei boblogrwydd â lladron metel sgrap.




## 28. BILLY'R MORLO

Dyluniwyd y cerflun llawen hwn o 'Billy' y Morlo gan David Petersen ym 1997. Ar ôl cael ei achub o rwydi cwch pysgota a oedd yn gweithredu o Ddociau Caerdydd, bu Billy'n byw yn Llyn Parc Fictoria o 1912 tan ei farwolaeth ym 1939.



## 29. CANOPI FFYNNON PARC FICTORIA

Mae’r canopi hwn, a oedd yn cynnwys ffynnon dŵr yfed yn wreiddiol, yn un o ddwy enghraifft a roddwyd i’r ddinas ym 1908 gan MacFarlanes o Glasgow. Gellir gweld y ffynnon arall yng Ngerddi'r Faenor.




## 30. COFEB RYFEL LLANDAF

Crëwyd Cofeb Ryfel Llandaf gan Syr William Goscombe John ym 1924 a saif yng nghanol pen gogleddol Lawnt yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf. Mae'r gofeb yn cynnwys tri ffigur efydd; dau filwr a ffigur benywaidd yn y canol.



## 31. CERFLUN O JAMES RICE BUCKLEY

Mae'r cerflun efydd o James Rice Buckley yn ddarn arall gan Syr William Goscombe John. Bu Buckley yn ficer Llandaf ac yn Archddiacon Llandaf wedi hynny. Gellir gweld y cerflun efydd ar bedestal gwenithfaen ger Eglwys Gadeiriol Llandaf ar Lawnt yr Eglwys Gadeiriol.




## 32. CROES Y DDINAS

Saif Croes y Ddinas yng nghanol Llandaf ar Lawnt yr Eglwys Gadeiriol. Lluniwyd y groes yn yr 13eg ganrif yn wreiddiol, ond fe'i hadferwyd a'i dychwelwyd i'w lleoliad ym 1897 i nodi Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines Fictoria

# 33. MAP O LANDAF


Gellir gweld y map hwn o Landaf, a ddyluniwyd gan yr artist Angela Davies ym 1981, ar wal wrth ymyl yr Heol Fawr yn Llandaf.






## 34. MURLAN GABALFA

Yn 2012, comisiynwyd yr artist lleol Bryce Davies gan y Cyngor i wella Tanffordd Gabalfa. Cynhaliwyd gweithdai gydag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol i ddatblygu darn o gelf ar ffurf graffiti. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu nodweddion diddorol Taith Taf yn cynnwys Adeilad y Pierhead a Blackweir. Cyn cwblhau'r project, roedd graffiti a thagiau i'w gweld yn y danffordd, ond nid felly y mae hi bellach yn sgîl gwaith y gymuned ac artist lleol uchel ei barch.



## 35. COFEB RYFEL RADUR

Mae Cofeb Ryfel Radur yn cynnwys ffigur efydd yn dal ffagl, gyda cheriwb yn penlinio wrth ei ochr. Cwblhawyd y gofeb gan y cerflunydd Alfred Turner, sy'n uchel ei barch, a'r arysgrif Saesneg arni yw: "TO THE LASTING HONOUR OF RADYR'S GALLANT DEAD ALSO OF THE ONE HUNDRED AND FORTY SEVEN OTHERS FROM THE PARISH WHO ALSO SERVED 1914-1918 THEY DIED FOR FREEDOM 1939-1945"



## 36. LLWYBR CERFLUNIAU FFOREST FAWR

Mae’r llwybr cerfluniau hwn, a grëwyd yn Fforest Fawr ger Castell Coch, yn tywys plant ar daith hudol, gan ddilyn cliwiau anferth wrth iddynt geisio datgelu cyfrinachau'r cawr. Crëwyd y cerfluniau anferth hyn, sy’n cynnwys oriawr, cist drysor, pair, cadair a draig, gan yr artist lleol Cassy Healey a’r cerflunydd John Hobbs, gan greu awyrgylch dysgu awyr agored unigryw i blant.



# 37. TAF, RHYMNI AC ELÁI

Dyluniwyd y grŵp hwn o dri ffigur clasurol mawr neu greaduriaid y môr ym 1906 gan y cerflunydd pensaernïol Henry Pool, gan gynrychioli tair afon Caerdydd; sef afon Taf, afon Rhymni ac afon Elái. Gellir gweld y ffigurau heddiw ar adeilad trawiadol Neuadd y Ddinas yng nghanol Caerdydd.



## 38. Y TWR DWR, BAE CAERDYDD

Saif y tŵr 70 troedfedd hwn wrth fynedfa Roald Dahl Plass. Fe'i dyluniwyd gan William Pye yn 2000, ac fe'i gwelwyd yn rhifynnau o'r cyfresi teledu Dr Who a Torchwood.








# 39. POSTYN MILLTIR MILENIWM CYMRU

Mae pedwar postyn milltir o ddyluniadau gwahanol i'w gweld ledled y wlad, oll wedi'u dylunio gan artistiaid gwahanol. Mae sawl fersiwn o'r pyst i'w gweld ar hyd Taith Taf sy'n nodi'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Gellir gweld dau bostyn ym Mharc Bute ger Pont y Mileniwm.




## 40. TANFFORDD PARC HAILEY

Yn 2010, comisiynwyd yr artist lleol Bryce Davies gan y Cyngor i wella Tanffordd Parc Hailey. Cynhaliwyd gweithdai gyda'r ysgolion a'r grwpiau cymunedol lleol i ddatblygu darn o gelf ar ffurf graffiti. Mae'r gwaith yn adlewyrchu hanes yr ardal ac yn dangos adeiladau hanesyddol megis Castell Coch ochr yn ochr â rhai o'r datblygiadau mwy modern ar hyd Coridor Taf.




# CELF GYHOEDDUS AR HYD

# TAITH TAF

**Diben y daflen hon yw darparu gwybodaeth am y Gelf Gyhoeddus sydd i'w gweld ar hyd Taith Taf yng Nghaerdydd.**

**Os ewch am dro ar hyd y llwybr, fe welwch lawer o ddarnau diddorol o Gelf Gyhoeddus, o'r Llwybr Cerfluniau yn Fforest Fawr i'r cerfluniau ym Mae Caerdydd.**

*I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.*

**Ffôn:** 029 2087 3215

**E-bost:** cefngwlad@caerdydd.gov.uk

**Gwefannau:** www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth